# Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

## 17 Mai 2023, yng Ngwesty'r Marriott, Caerdydd

## Cofnod ar ôl y digwyddiad ar gyfer yr ymrwymiadau a wnaed, gwaith gwerthuso a chamau gweithredu dilynol.



## Cynnwys

1. **Crynodeb Gweithredol**
    - Negeseuon allweddol
    - Y camau nesaf

2. **Siaradwyr**

3. **Ymrwymiadau i Weithredu**

4. **Atodiad 1: Adborth y cyfranogwyr**
   **Atodiad 2: Adborth yr hwyluswyr**
   **Atodiad 3: Crynodeb: yr hyn a weithiodd yn dda a ffyrdd ymlaen**
   **Atodiad 4: Enghreifftiau o'r data presennol ar y gwahaniaethau a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: data 'Stopio a Chwilio' gan Heddlu De Cymru (Saesneg) a Data gan yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil**
   **Atodiad 5:** Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (traumaframeworkcymru.com)
   **Atodiad 6: Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

## Crynodeb Gweithredol

Ar 17 Mai 2023, cydweithiodd Llywodraeth Cymru a Cyfiawnder Troseddol Cymru er mwyn cynnal Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sef y gyntaf o'i bath yng Nghymru, gan ddwyn ynghyd uwch-arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o wrth-hiliaeth.

Diben cyffredinol yr uwchgynhadledd oedd hyrwyddo dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac egluro'r angen am gamau gweithredu penodol ar y cyd mewn perthynas â'r dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus o ymdrin â gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

Ein prif nodau oedd:

- Meithrin dealltwriaeth ac ymrwymo i weithredu er mwyn rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith
- Rhannu profiadau o sefydlu Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru
- Tynnu sylw at fanteision dull system gyfan o fynd i'r afael ag anghymesuredd a hyrwyddo gwrth-hiliaeth.
- Galluogi arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gymryd perchenogaeth o'n gweledigaeth i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030.

Roedd y pwyllgor trefnu yn cynnwys tîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o dan arweiniad Riaz Hassan, ac Emma Wools, Hannah Jones-Jenkins, Dominee Coco, Michelle Cooper, Ian Roberts a Mags Flanagan o Heddlu De Cymru. Roedd Rebecca Gorman a Sara Whittam yn cynrychioli'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach ac roedd Joseph Lewis yn cynrychioli CLILC.

Agorwyd yr Uwchgynhadledd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Ysgrifennydd Parhaol a amlinellodd weledigaeth Llywodraeth Cymru i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 a'r heriau o ran arweinyddiaeth sydd ynghlwm â hynny.

Yr Athro Uzo Iwobi CBE, sy'n aelod o Grŵp Atebolrwydd Allanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a fu'n llywyddu yn ystod yr Uwchgynhadledd.

Roedd pob lle yn yr Uwchganhadledd wedi'i gymryd, gyda mwy na 200 o arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus ac o sefydliadau yn y trydydd sector.

**Nodir isod y negeseuon allweddol o'r Uwchgynhadledd i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

- Llunio cynlluniau a gwneud gwaith ar y cyd â phobl sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol a phwerus o nodi camau gweithredu effeithiol i ddileu rhwystrau ac ymgorffori gwrth-hiliaeth a'u cyflawni.
- Rhaid i ddull gweithredu sy'n ystyriol o drawma gael ei ymgorffori mewn gwaith ar wrth-hiliaeth o'r cychwyn cyntaf.

- Mae'n hanfodol bod gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn cydweithio er mwyn hyrwyddo ac ymgorffori gwrth-hiliaeth er mwyn inni greu Cymru wrth-hiliol, gan gytuno ar ganlyniadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol a rennir ar draws sefydliadau lle y bo'n bosibl/priodol.
- Mae'n bwysig llenwi'r nifer mawr o fylchau mewn data sy'n bodoli ond na ddylent atal camau rhag cael eu cymryd nawr i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a gwahaniaethu a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – mae'r data sydd gennym eisoes yn dangos lefel yr anghyfartalwch (gweler Atodiad 4)

**Yn seiliedig ar adborth o'r Uwchgynhadledd, dyma'r camau nesaf i Dîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:**

1) Ystyried ffyrdd o sicrhau y mabwysiedir dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

2) Y Tîm Gweithredu i drefnu i Gyd-gadeiryddion y Grŵp Atebolrwydd Allanol gwrdd ag arweinwyr yn y sector cyhoeddus, mewn grwpiau sector o bosibl, mewn cyfarfodydd dilynol ar ôl yr uwchgynhadledd, er mwyn cael adborth a rhannu negeseuon allweddol.

3) Helpu sefydliadau ac unigolion i gyflawni eu hymrwymiadau i weithredu.

4) Cynnal cynadleddau gwrth-hiliaeth un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sector-benodol llai o faint.

## Siaradwyr

**Yr Athro Uzo Iwobi, CBE** a fu'n llywyddu ar y diwrnod, gan gyflwyno'r siaradwyr a chadeirio sylwadau a chwestiynau gan y cynadleddwyr.

**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS CBE,** a roddodd yr anerchiad yn croesawu pawb i'r Uwchgynhadledd, gan nodi gweledigaeth i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2020.

Amlinellodd **Andrew Goodall CBE, Prif Ysgrifennydd, Llywodraeth Cymru**, yr her arwain i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i roi'r dull un gwasanaeth cyhoeddus o ymdrin â gwrth-hiliaeth ar waith yng Nghymru.

Amlinellodd **Amy Rees**, Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ac **Emma Wools,** Dirprwy Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, weledigaeth i greu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol.

Ymdriniodd y prif siaradwr, **Nazir Afzal OBE**, â mater hiliaeth strwythurol mewn bywyd cyhoeddus. Defnyddiodd brofiadau bywyd personol yn ogystal â phrofiad proffesiynol a chyd-destun damcaniaethol.

Gwnaeth yr **Athro Emmanuel Ogbonna,** cyd-gadeirydd Grŵp Atebolrwydd Allanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, olrhain y daith tuag at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a elwid gynt yn Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.

Rhannodd **Usha Ladwa-Thomas,** Uwch-gynghorydd ar Hil, ymddygiadau arwain allweddol sydd eu hangen i wneud newidiadau gwrth-hiliol, wedi'u hategu ag enghreifftiau o fyd gwaith. Disgrifiodd Usha dri ymddygiad arwain allweddol a phwysleisiodd y ffaith bod trawsnewid systemau yn helpu i unioni'r anghydbwysedd pŵer sydd wedi'i ymgorffori yn ein prosesau a'n polisïau.

Arddangosodd **Simon Pickthall** o Vanguard Consultancy y model meddwl drwy systemau fel cyfrwng i sicrhau newid sefydliadol.

Cadeiriodd **Dr Jo Hopkins,** cyfarwyddwr Hyb ACE Cymru, y sesiwn holi ac ateb yn dilyn y profiadau bywyd a rannwyd gan **Tom Tom Hendry,** Swyddog Cydraddoldeb ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mentor polisi a chyd-sylfaenydd There and Back and Again; **Jake Henry,** sylfaenydd Vibe Youth CIC a Dedicated Training and Consultancy; a **Wanjiku Mbgua-Ngotho,** Prif Weithredwr BAWSO.







Roedd trafodaeth ffurfiol olaf yr uwchgynhadledd yn drafodaeth banel a gadeiriwyd gan **Shavanah Taj**, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres Undebau Llafur Cymru, **Pam Kelly,** Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, **Jo-Anne Daniels,** Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru, **Dr Jo Hopkins,** Cyfarwyddwr Hyb ACE Cymru a **Derek Walker,** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, **Arweinydd Cyngor Sir Fynwy a Llefarydd CLlLC ar Gyfiawnder Cymdeithasol,** a roddodd y sylwadau cloi.

## Ymrwymiadau i Weithredu

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn yr Uwchgynhadledd wneud ymrwymiad pendant i gymryd camau pellach i ymgorffori gwrth-hiliaeth yn eu sefydliadau.

Nodir isod yr ymrwymiadau a wnaed i weithredu:

| **Ymrwymiadau i Weithredu** |
|---|
| Cyflwyno ein cynlluniau i ymgysylltu â phrofiad bywyd, er mwyn darparu gwybodaeth i arweinwyr strategol a'u cymell |
| Hyrwyddo "herio" ym mhob rhan o'r gweithlu ac annog pobl i fod yn "asiantiaid dros newid" a pheidio â chymryd rhan mewn ymddygiad hiliol. |
| Adolygu ein system ac asesu a yw'n addas at y diben gan ystyried barn ein rhanddeiliaid.<br><br>Hyrwyddo diwylliant lle rydym yn herio ar bob lefel |
| Byddwn yn cael caniatâd ein cymunedau i fynd ati i ymgysylltu â nhw a nodi'r canfyddiadau o'n gwasanaethau a'r hyn rydym yn ei wneud.<br><br>Byddwn yn dwyn arweinwyr i gyfrif ac yna'n gweithio gyda nhw i newid systemau er mwyn meithrin cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth. |
| Bydd y sefydliad yn cael caniatâd ein cymunedau i fynd ati i ymgysylltu â nhw a nodi'r canfyddiadau o'n gwasanaethau a'r hyn rydym yn ei wneud. |
| Gweithio gyda phwyllgorau i greu gweithlu mwy cynhwysol. |
| Hyrwyddo cytgord a chymdeithas heddychlon drwy integreiddio newydd-ddyfodiaid â phobl brif ffrwd. Sut rydym yn bwriadu gwneud hynny? Drwy addysg ac ymgysylltu diwylliannol. |
| Bod yn glir ac yn gadarnhaol ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen ar CLILC i gyflawni ein rôl i alluogi'r newidiadau sydd eu hangen. |

| |
|---|
| Byddwn yn rhoi proses adrodd a chwyno wrth-hiliol ar waith er mwyn sicrhau bod system gadarn ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol ac ymdrin ag ef.<br><br>Rwy'n ymrwymo'n bersonol i hyrwyddo gwrth-hiliaeth ym mhob rhan o'm sefydliad, gan ddefnyddio fy nylanwad i sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn arwain at newid meddylfryd ym Mhrifysgol Cymru a bod pawb yn ymwybodol o'r rôl y mae angen iddynt eu chwarae er mwyn cyflawni'r nod hwn. |
| Mabwysiadu'r Dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus o ymdrin â gwrth-hiliaeth drwy hunanfyfyrio a gonestrwydd, gan glywed lleisiau pobl, ennyn ymddiriedaeth (Cael gwared ar labeli)<br><br>Mae iaith yn allweddol |
| Ennyn ymddiriedaeth ymhlith cymunedau ethnig leiafrifol a symud tuag at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Esbonio, Mynegi a Thrafod heriau a phroblemau y maent yn eu hwynebu a cheisio helpu ym mhob ffordd bosibl. Eu cynnwys yn y gweithlu a'u hannog ymhellach. |
| Atal ymyleiddio yn yr iaith rydym yn ei defnyddio fel sefydliad.<br><br>Ymgorffori rhwydweithiau mewn penodiadau.<br><br>Gweithio mwy gyda sefydliadau cymunedol er mwyn gwir gysylltu â chymunedau a sicrhau mwy o gyfleoedd cyfartal. |
| Byddwn yn sicrhau bod gennym y bobl iawn o amgylch y byrddau penderfynu. Byddwn yn gwerthuso gwerthoedd fel rhan o Adolygiadau o Ddatblygiad Personol. |
| Rhoi'r gorau i ddefnyddio iaith sy'n ymyleiddio h.y. 'braint pobl wyn' |
| Cynnal ymarferion gwrando gyda'n staff er mwyn sicrhau bod y profiadau personol wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud. Mae angen inni wneud pethau gyda phobl, nid iddynt, fel y nodwyd heddiw – a pheidio â gwneud tybiaethau. |
| Bydd SLT yn darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth pwrpasol dros y flwyddyn nesaf. Yn y dyfodol, ar gyfer cydraddoldebau, byddaf yn sefydlu 'Clwb Diwylliant' i'r swyddfa gyfan er mewn meithrin cymhwysedd diwylliannol drwy lyfrau, y teledu, ffilmiau, podlediadau ac ati. |
| Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar brofiadau bywyd ar gyfer prosiectau cydraddoldeb Cyngor Partneriaeth y Gweithlu gan gynnwys prosiectau ymwybyddiaeth monitro amrywiaeth. |
| Gweithredu.<br>Gwneud newidiadau bach ond amlwg.<br>Edrych ar y pethau da sy'n cael eu gwneud a'u hailadrodd mewn mannau eraill |
| Parhau i gynnal ein fframwaith safonau proffesiynol a'r Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cysylltiedig a sicrhau, fel rhan o'r proffesiwn tai proffesiynol, ein bod yn cefnogi ein gweithlu ac yn ei ddwyn i gyfrif er mwyn sicrhau amrywiaeth a diwallu anghenion y cymunedau lle rydym yn gweithio a'u cynrychioli. |
| Cynnal Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |


| |
|---|
| Bod yn alluogydd / pontio'r bwlch. |
| Rydym yn ymrwymedig i'r Siarter Cydraddoldeb Hil a'r gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn gwneud cais am wobr y Siarter ymhen 18 mis. |
| Mynd ati mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth gan hyrwyddo rôl gwrth-hiliaeth yn ein sefydliadau.<br><br><u>Rhwystrau posibl</u><br>Dealltwriaeth a disgwyliadau sefydliadol, cynnal momentwm a deall sut mae'n dod ag ef i mewn i'r agenda er mwyn grymuso eraill.<br>Mae angen darparu adnoddau ar ei gyfer.<br>Nid yw'n glir sut y bydd camau gweithredu yn effeithio ar newid. |
| Byddaf yn cynnal sesiwn bwrpasol gyda'm tîm er mwyn deall sut y gallwn gyfrannu at y gwaith o gyflawni Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru |
| Herio a chefnogi arweinwyr<br>Darparu dysgu proffesiynol.<br>Gwrando a dysgu yn barhaus.<br>Trefnu adolygiad o DPAau a gweithredu. |
| Defnyddio gweithdrefnau ac amcanion rheoli perfformiad i ddatblygu dysgu personol a phroffesiynol ym maes gwrth-hiliaeth. |
| Profi tybiaethau presennol defnyddwyr gwasanaeth/y gymuned gan gofio bod angen mabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma (gan gydnabod trawma presennol a'r potensial i achosi trawma) |
| Cymryd camau i ehangu gweithgarwch ymgysylltu ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu, yn benodol gan ddod â phrofiadau bywyd i mewn i'n huwch-dîm arwain. Adolygu systemau recriwtio a'u newid. Ychwanegu cwestiynau am wrth-hiliaeth at y broses adolygu perfformiad a dysgu o'r dull partneriaeth. |
| Rhoi mwy o lais i bobl â phrofiad bywyd a herio hiliaeth o bob math. |
| Gosod sylfaen i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a gweithredu arno.<br>Gweithio cydgysylltiedig ar lefel amlasiantaethol ac ysgogiadau strategol i gau'r bwlch pŵer.<br>Dysgu amlddisgyblaethol mwy effeithlon, gwell, cydweithio i roi camau gweithredu ar waith tuag at y Cynllun. |
| Herio amcanion / DPAau cydraddoldeb gyda chynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau nad yw'n ymarfer ticio blychau. |


| |
|---|
| Cynnwys elfen o 'wylio' mewn hyfforddiant cydraddoldeb (cydraddoldebau, rhagfarn ddiarwybod a rhagfarn) |
| Codi ymwybyddiaeth o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ymhlith pob aelod o'n staff a gweithio tuag at ei wireddu.<br>Gwrando ar ein cymunedau er mwyn nodi sut y gall ein gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. |
| Byddwn yn parhau i gymryd camau yn erbyn hiliaeth ond rydym yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r adnoddau i wneud hynny. Mae diffyg adnoddau yn ein hatal rhag darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Felly, rydym yn treulio gormod o amser gwerthfawr yn ceisio cael gafael ar adnoddau. Mae angen symleiddio a rhanbartholi cyllid i'r sector gwirfoddol. |
| Mae angen inni gydweithio er mwyn sicrhau newid. |
| Cynyddu gweithgarwch cydgynhyrchu drwy siarad â phobl wahanol ledled yr ardal a gwrando arnynt er mwyn cael gwybod beth y gallwn ei wneud a fydd yn cael yr effeithiau/canlyniadau gorau. |
| Hyrwyddo Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru a Chyfiawnder Troseddol yn ein sefydliad ym mhob rhan o Heddlu Gwent ac ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gwent.<br>Gweithio er mwyn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol a bod gennym gamau gweithredu clir i'n sefydliadau.<br>Rwy'n ymrwymedig i barhau i helpu i roi Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Troseddol ar waith ac, yn arbennig, arwain y gwaith ar ymgysylltu cymunedol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydgysylltu'r cynllun. Dysgu a rhannu ein gwaith. |


## Atodiad 1: Adborth y Cyfranogwyr


Mae'r trafodaethau canlynol yn seiliedig ar yr ymatebion adborth a gafwyd ar ôl yr Uwchgynhadledd. Anfonwyd yr holiaduron drwy negeseuon e-bost ac anfonwyd arolwg deallus ar-lein a oedd yn cynnwys yr un cwestiynau.


Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar yr ymatebion a roddwyd ac nad ydynt, o bosibl, yn cwmpasu'r holl safbwyntiau na phrofiadau a fynegwyd gan bawb a gymerodd ran yn yr Uwchgynhadledd.














Poor = Gwael, Fair = Eithaf Da, Average = Canolig, Good = Da, Excellent = Ardderchog




Poor = Gwael, Fair = Eithaf Da, Average = Canolig, Good = Da, Excellent = Ardderchog




Roedd yr adborth yn gadarnhaol, ar y cyfan, gyda'r cyfranogwyr yn mynegi boddhad a gwerthfawrogiad o'r cynnwys a'r siaradwyr ac yn nodi eu bod wedi cael cyfle i ddysgu a rhwydweithio. Fodd bynnag, cafwyd ymatebion cymysg ac adborth beirniadol hefyd, gan gynnwys pryderon ynghylch y ffordd y cynhaliwyd y drafodaeth banel, y ffaith nad oedd unrhyw bwyntiau dysgu clir ac ymdeimlad o siom a bod cyfleoedd wedi'u colli.

**Agweddau gwerthfawr ar yr Uwchgynhadledd y rhoddwyd gwybod amdanynt:**

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi'r tair agwedd bwysicaf ar yr Uwchgynhadledd, cafwyd yr ymatebion adborth canlynol:

- Profiad bywyd:
- Rhwydweithio:
- Dysgu a Rhannu Gwybodaeth:

**Gwelliannau a awgrymwyd a meysydd o ddiddordeb ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol:**
Ymhlith yr agweddau ar yr Uwchgynhadledd y gellid eu gwella, ym marn y cyfranogwyr, roedd:

Rheoli Amser a Dynameg Grŵp: rhestr o wybodaeth am y cynadleddwyr ymlaen llaw er mwyn i'r cynadleddwyr allu rhwydweithio cyn y digwyddiad
Amrywiaeth a Phrofiadau Bywyd y Siaradwyr: mwy fyth o hyn.
Lleoliad a Logisteg: byddai rhai cynadleddwyr wedi cael budd o ddigwyddiad hybrid a dylid cynnal digwyddiadau yn y dyfodol mewn rhan wahanol o Gymru.

Nododd y mwyafrif o'r cyfranogwyr eu bod yn bwriadu mynd i ddigwyddiadau ar wrth-hiliaeth yn y dyfodol. Gwnaethant dynnu sylw at wahanol feysydd y gellid canolbwyntio arnynt yn y digwyddiadau hyn:

**Hyfforddiant a Chymorth:**
Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen hyfforddiant penodol ar "asiantiaid dros newid" a all herio ymddygiadau ac agweddau gwrth-hiliol mewn eraill. Gwnaethant hefyd ofyn am gymorth ynglŷn â sut i herio rhwystrau ac oedi yn eu sefydliadau ac am wybodaeth am y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, megis cyllid ac adnoddau.
**Croestoriadedd a Meddwl drwy Systemau:**
Mynegodd y cyfranogwyr ddiddordeb mewn ystyried croestoriadedd er mwyn deall gwahanol brofiadau o hiliaeth yn well. Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar feddwl drwy systemau er mwyn herio'r strwythurau ac nid dim ond unigolion mewn sefydliadau.
**Ymgorffori Gweithredu ac Egwyddorion:**
Roedd y cyfranogwyr yn disgwyl cael rhagor o wybodaeth am y ffordd roedd yr egwyddorion a drafodwyd yn yr Uwchgynhadledd yn cael eu hymgorffori yn arferion a diwylliant sefydliadau. Nodwyd bod angen enghreifftiau cadarnhaol o ble mae newid yn cael ei ymgorffori.
**Ffocws Cymunedol Penodol:**
Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr fod angen mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru a gwnaethant ofyn am wybodaeth am waith sy'n mynd rhagddo gyda phartneriaid statudol. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod gwrth-hiliaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
**Dull Llawr Gwlad a Sector:**
Pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd mentrau llawr gwlad ac ymdrechion ar y cyd mewn sectorau er mwyn ateb heriau a manteisio ar gyfleoedd. Awgrymwyd y dylid mabwysiadu dull sector cyfan, gan hwyluso cydweithio ymhlith gwahanol sefydliadau mewn sector.
**Newid a Chyfrifoldeb Sefydliadol:**
Mynegodd y cyfranogwyr ddiddordeb mewn rhoi terfyn ar hiliaeth sefydliadol, gan alw am newid diwylliannol mewn sefydliadau. Gofynnwyd am arweiniad ar sut i roi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar waith a sicrhau bod uwch-arweinwyr wir yn cymryd cyfrifoldeb.
**Addysg Bellach ac Ymwybyddiaeth:**
Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i weld mwy o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar feysydd addysgol a gwnaethant argymell digwyddiadau tebyg ar elfennau eraill o

gydraddoldeb. Pwysleisiwyd pwysigrwydd deall nad yw amrywiaeth, o reidrwydd, yn gwarantu cynhwysiant na gwrth-hiliaeth.

**Cymunedau a Lleisiau Penodol:**
Nododd cyfranogwyr fod angen rhoi mwy o lais i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a deall eu hanghenion a'u profiadau penodol. Gofynnwyd am ragor o sesiynau ar gydweithio a meithrin cydberthnasau â sefydliadau eraill.

Roedd y cwestiwn olaf ar y ffurflen adborth yn gofyn am unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill:

**Adborth Cadarnhaol a Diolch:**
Diolchodd y cyfranogwyr i drefnwyr y digwyddiad a'u canmol am eu hymdrechion. Cyfeiriodd rhai cynadleddwyr at y profiad gwerthfawr roeddent wedi'i gael, gan nodi eu bod yn awyddus i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

**Awgrymiadau ar gyfer Gwella:**
Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid sicrhau mwy o bresenoldeb gan y cyfyngau cymdeithasol, ffrydio digwyddiadau yn fyw ac arolygon ar-lein er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad. Awgrymwyd y dylid cydweithio ag aelodau allanol er mwyn llunio agenda'r digwyddiad a sicrhau ei bod yn fwy diddorol.
Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am fesurau cynwysoldeb megis dehongli iaith arwyddion a deunyddiau hawdd eu deall.

**Manylion Cyswllt:**
Rhoddodd sawl cyfranogwr eu manylion cyswllt, gan nodi eu bod yn fodlon i bobl/sefydliadau eraill gysylltu â nhw er mwyn trafod ymhellach neu gael eglurhad.

**Sylwadau Amrywiol:**
Rhannodd un cyfranogwr ddatganiad yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol cyllid ar gydberthnasau rhwng y gymuned a'r heddlu. Gwnaeth rhai cyfranogwyr sylwadau cyffredinol, gan gynnwys annog mynd i'r afael â hiliaeth, gwerthfawrogiad o'r ffaith bod yr uwchgynhadledd wedi dechrau'r drafodaeth ac awgrymiadau ar gyfer cynnal rhagor o ddigwyddiadau.

Ar y cyfan, roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau cadarnhaol, awgrymiadau ar gyfer gwella, ceisiadau am eglurhad a chynigion ar gyfer ymgysylltu neu gyswllt pellach. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cynwysoldeb, gwaith trefnu effeithiol a thrafodaethau ystyrlon mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

## Atodiad 2: Adborth yr hwyluswyr

Diolch yn fawr i'r hwyluswyr a gymerodd ran yn yr Uwchgynhadledd am roi'r adborth canlynol. Bydd yn helpu i lywio digwyddiadau yn y dyfodol. At ddibenion yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw enwau wedi'u priodoli i'r sylwadau.

| Yr hyn a weithiodd yn dda |
|---|
| • Roedd yn ddefnyddiol cael cymysgedd o gynrychiolwyr o wahanol sefydliadau a chlywed heriau cyffredin yn ogystal â heriau sy'n benodol i'r cyd-destun.<br>• Roedd pennu un hwylusydd i bob bwrdd wedi gweithio'n dda iawn er mwyn sianelu trafodaeth gyffredinol i nodau y gellid eu cyflawni a chonsensws y gellid ei sicrhau.<br>• Roedd y trafodaethau yn cael eu nodweddu i gryn raddau gan ymdrech ar y cyd a 'chydweithio'.<br>• Gwelwyd ymdrech fawr a pharodrwydd i gysylltu ag eraill a chreu lle diogel.<br>• Roedd y sgyrsiau yn adlewyrchu ymdeimlad cryf o bwrpas.<br>• Cafodd pobl yn gwrando ar brofiadau bywyd gryn effaith ar feddylfryd yr arweinwyr wrth y bwrdd. Cafodd y neges bod angen newid diwylliannol sylweddol ei hadlewyrchu'n dda.<br>• Roedd y gweithgaredd a'r pwyntiau trafod yn gyfoethog ac yn bwrpasol. Daeth pŵer ac arweinyddiaeth i'r amlwg fel ysgogiadau gwirioneddol newid. |
| **Ffyrdd ymlaen** |
| • Roedd y cwestiynau a'r dasg wedi'u llunio'n well fyth o amgylch pŵer ac arweinyddiaeth, gan fod y rhain wedi dod i'r amlwg fel ysgogiadau allweddol newid.<br>• Roedd mwy o amser wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgaredd hwn. Roedd y trafodaethau yn fanwl ac yn gyfoethog a byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai mwy o amser wedi cael ei neilltuo ar eu cyfer. Mae newid ystyrlon yn gofyn am amser ystyrlon a gallai'r trafodaethau fod wedi cael eu llunio â chwestiynau pwrpasol dros gyfnod hwy o amser. |


- Roedd cydbwysedd gwell wedi bod rhwng allbwn a chyflwyniadau a thrafodaeth ymhlith y cynadleddwyr.
- Roedd y canllawiau i hwyluswyr wedi'u darparu'n gynharach.
- Roedd hygyrchedd wedi'i ystyried ar gyfer y rhai a fyddai wedi cael budd o ystafelloedd ymneilltuo i ddiwallu eu hanghenion.
- Roedd y cynadleddwyr wedi cadw at gynllun y byrddau. Gellid egluro hyn ar ddechrau digwyddiadau yn y dyfodol.
- Eglurwyd y meini prawf ar gyfer dewis siaradwyr fel bod y sail resymegol dros bob parti neu unigolyn a roddodd gyflwyniad, yn glir i bawb.
- Manteisiwyd ar fwy o gyfleoedd i gynnwys mewnbwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).
- Roedd dull gweithredu cwbl ystyriol o drawma wedi bod ar waith drwy gydol y dydd, gyda dealltwriaeth lawn o ddiogelwch seicolegol, i'r siaradwyr yn ogystal â'r gwrandawyr.
- Roedd cod ar gyfer gwrando a chlywed wedi'i sefydlu i bawb a oedd yn bresennol ar ddechrau'r digwyddiad. Byddai hyn wedi sicrhau ymatebion mwy sensitif a bod adborth yn cael ei roi i bawb a oedd yn bresennol ar ôl yr uwchgynhadledd.
- Roedd mwy o amser ymlacio wedi'i ganiatáu rhwng sesiynau

## Atodiad 3: Crynodeb: yr hyn a weithiodd yn dda a ffyrdd ymlaen


| Yr hyn a weithiodd yn dda |
|---|
| • Cydweithio wythnosol da iawn rhwng tîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a thîm Cyfiawnder Troseddol Cymru yn ystod y misoedd cyn yr uwchgynhadledd.<br>• Gwaith cynllunio a threfnu da iawn ar gyfer y digwyddiad<br>• Cafodd diben y diwrnod a'r disgwyliadau yn ogystal â'r ffiniau ar gyfer yr holl ryngweithio eu pennu'n dda iawn<br>• Deialog gyfoethog, bwrpasol drwy gydol y dydd<br>• Roedd yr uwchgynhadledd yn lle diogel.<br>• Cafodd pob bwrdd ei gefnogi gan hwylusydd. Cafodd yr hwyluswyr eu briffio'n dda iawn a gwnaethant gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol a phwrpasol iawn.<br>• Cwblhaodd pob bwrdd ymrwymiadau i weithredu. Caiff y gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn ei gefnogi gan dîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br>• Cynrychiolaeth dda gan Awdurdodau Lleol a byrddau'r GIG<br>• Y cydbwysedd rhwng profiadau proffesiynol a phrofiadau bywyd, ymhlith y siaradwyr a'r cynadleddwyr.<br>• Cynrychiolaeth hiliol, ddiwylliannol, ryng-ffydd a rhanbarthol dda iawn.<br>• Roedd clustffonau Cymraeg wedi'i gwneud yn bosibl i'r uwchgynhadledd gael ei gynnal yn gwbl ddwyieithog.<br>• Adborth cadarnhaol iawn ar Twitter a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill gan adleisio cytundeb â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.<br>• Adborth eithriadol ar y diwrnod ac ar ffurf arolygon adborth.<br>• Mae rhai wedi dweud, am mai hon oedd yr uwchgynhadledd gyntaf o'i bath, nad oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl a bod y diwrnod y tu hwnt i'w disgwyliadau. |


| **Ffyrdd ymlaen** |
| --- |
| • Roedd yr uwchgynhadledd wedi mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma o ymdrin ag unrhyw sbardunau a wynebwyd ac wedi sicrhau bod cymorth ar gael drwy gydol y dydd gan gyfeirio at gymorth mewn sesiynau dilynol fel roedd yn briodol.<br><br>• Ystyried rhoi cydnabyddiaeth ariannol am eu hamser i'r rhai sy'n rhannu eu profiadau bywyd<br><br>• Mae pob hwylusydd yn cytuno ar y cylch gorchwyl a'r derminoleg allweddol sy'n cael eu nodi'n glir ym mhob sesiwn briffio.<br><br>• Mae mwy fyth o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer trafodaethau grŵp ystyrlon ac adborth.<br><br>• Mae byrddau cofrestru wedi'u grwpio a'u cynllunio er mwyn sicrhau y gall unigolion gofrestru yn hawdd ac yn gyflym.<br><br>• Dylid adolygu'r broses trefnu lle gychwynnol er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai sydd wedi cofrestru sy'n dod i'r digwyddiad.<br><br>• Dylid hwyluso cyfleoedd i rwydweithio yn ystod egwylion a chinio mewn ardaloedd bach drwy bennu grwpiau ac ardaloedd ymneilltuo.<br><br>• Darparu rhagor o hyfforddiant i'r hwyluswyr er mwyn iddynt allu canolbwyntio pob trafodaeth ar y diben, y nodau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a chreu lleoedd diogel. |

## Atodiad 4: Enghreifftiau o'r data presennol ar y gwahaniaethau a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: data 'Stopio a Chwilio' gan Heddlu De Cymru (Saesneg)



## Data gan yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil



Cymru Wrth-hiliol
An Anti-Racist Wales

Yn CA3, mae myfyrwyr Roma/Sipsi Roma bron 50% yn llai tebygol o gyflawni L5 neu uwch mewn pynciau craidd o'i gymharu â myfyrwyr gwyn eraill



Eicon gan / Icon by Srip

At KS3, Roma/Gypsy Roma students are almost 50% less likely to achieve L5 or above in core subjects compared to other white students


Ffynhonnell: Casgliad Data Cenedlaethol asesiadau athrawon, Llywodraeth Cymru

Source: National teacher assessment data collectic Welsh Government

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol
An Anti-Racist Wales

Yn CA4, mae dros 29% o fyfyrwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn cyflawni 5 A* - TGAU o'i gymharu â 17% o fyfyrwyr Gwyn



Eicon gan / Icon by Freepik

At KS4, over 29% of Asian or Asian British students achieve 5 A* - A GCSEs compared to 17% of White students

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru

Source: National teacher assessment data collectio Welsh Government

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol | An Anti-Racist Wales

Yn 2021, dim ond 1.1% o athrawon ysgol oedd o gefndiroedd lleiafrifol o'i gymharu â 9.1% o fyfyrwyr



In 2021, only 1.1% of school-teachers were from minority backgrounds compared to 9.1% of students

Ffynhonnell: StatsCymru

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: StatsWales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol | An Anti-Racist Wales

Mae hanner pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn eiddo rhent o'i gymharu â dan draean o bobl Gwyn




Half of Black, Asian and minority ethnic people live in rental properties compared to under a third of White people

Ffynhonnell: StatsCymru

Eicon gan / Icon by Justicon

Source: StatsWales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol An Anti-Racist Wales

Un ym mhob 20 aelod a etholwyd i'r Senedd oedd Pobl Dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig



One in 20 members elected to the Senedd were Black, Asian and minority ethnic

Ffynhonnell: Stats Cymru

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: Stats Wales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol An Anti-Racist Wales

Roedd llai na 3% o ymgeiswyr llywodraeth leol o gefndir lleiafrifol



Fewer than 3% of local government candidates were from a minority background

Ffynhonnell: Stats Cymru

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: Stats Wales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol

An Anti-Racist Wales

Ar 8.4%, babanod Asiaidd yn fwy tebygol nag unrhyw ethnigrwydd arall o gael pwysau geni isel mae



At 8.4%, Asian babies are more likely than any other ethnicity to have low birthweights

Ffynhonnell: StatsCymru

Eicon gan / Icon by Freepik


Source: StatsWales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol

An Anti-Racist Wales

Mae pobl sydd ddim yn Wyn Prydeinig 13% yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig



People who are not White British are 13% more likely to report being lonely

Ffynhonnell: StatsCymru

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: StatsWales

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Ers 2011, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifol yn llai tebygol o gael eu cyflogi na'r rhai o gefndiroedd gwyn.



Since 2011, people from minority backgrounds are less likely to be employed than those from white backgrounds.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: Annual Population Survey

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Er cyflawni graddau gwell mewn addysg, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifol yn llai tebygol o gael eu cyflogi ac maen nhw'n cael llai o gyflog



Despite achieving better grades in education, people from minority backgrounds are less likely to be employed and are paid less

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Eicon gan / Icon by Smashicons

Source: Annual Population Survey

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol | An Anti-Racist Wales

Mae pobl Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu gor - gynrychioli ym mhob cam o'r system cyfiawnder troseddol, o fod yn ddioddefwyr i boblogaeth carchardai



Minority Ethnic people are over-represented in every stage of the criminal justice system, from being victims to prison population

Ffynhonnell: Data Agored Canlyniadau Troseddau yng Nghymru a Lloegr

Eicon gan / Icon by Freepik

Source: Crime Outcomes in England and Wales Open Data

Race Disparity Evidence Unit, Welsh Government

**Atodiad 5:** [Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (traumaframeworkcymru.com)](traumaframeworkcymru.com)

**Atodiad 6: Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu a neilltuo cyllid i gefnogi tîm Gweithredu canolog i oruchwylio'r cynllun gweithredu, sefydlu'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil a chefnogi gwaith y Grŵp Atebolrwydd Allanol. Roedd hyn mewn ymateb i'r adborth gan lawer o randdeiliaid bod angen inni “lenwi'r bwlch gweithredu”.

Bydd ‘Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol" yn arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro'r nodau a'r camau gweithredu. Bydd yn gwneud hyn gydag eraill gan gynnwys yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil ac eraill fel aelodau'r Grŵp Atebolrwydd Allanol.

Fel rhan o'r strwythur llywodraethu, yn ddiweddar sefydlodd y Tîm Gweithredu Grŵp Atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n cynnwys arbenigwyr allanol ym maes Gwrth-hiliaeth a chynrychiolwyr cymunedol â phrofiad bywyd, a darparodd adnoddau ar gyfer y tîm hwnnw; mae'r Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol yn cynnwys swyddogion polisi ac arbenigwyr allanol ym maes Gwrth-hiliaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pedwar Fforwm Rhanbarthol ledled Cymru a fydd yn cofnodi profiadau bywyd ac yn darparu cyswllt uniongyrchol â'n gwaith a'n gweithgarwch ymgysylltu â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru. Cyn hir byddwn yn sefydlu is-grwpiau o dan bob maes polisi, megis addysg, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, diwylliant treftadaeth a chwaraeon, gofal plant a chwarae a'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ac ati er mwyn sicrhau ei bod yn ‘gydgysylltiedig’.

**Mae'r tîm yn cynnwys:**

Riaz Hassan, Pennaeth Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Rajvi Glasbrook, Uwch-reolwr Prosiect Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Ymgysylltu)

Gemma Waite, Uwch-reolwr Prosiect Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Gweithredu)

Rena Ahmed, Rheolwr Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Jess Williams, Swyddog Polisi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Robin Grossmann/Lauren Frieze, Cymorth Tîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Usha Ladwa-Thomas, mae'r Cynghorydd ar Hil yn gweithredu fel cynghorydd a mentor ar gyfer y gwaith hwn.